| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 16/7/24 | Huw Antur ym materion cyflwyno gwybodaeth 3072 – Menter Gymunedol Llanuwchllyn. | **Presennol:**<br>**Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths (*Teams)*, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones(*Teams)*, Heledd Jones, Euros Roberts<br>Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>**Ymddiheuriadau:** Rhodri Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) | **Mynwentydd:** Yn eu cyfarfod, fe wnaeth yr Is-bwyllgor drafod geiriad sy'n berthnasol i'r ffioedd ac fe fydd yr amod o hyn ymlaen sydd yn disgrifio Ffioedd Lleol yn cynnwys "byw, gweithio neu fod yn berchennog ar eiddo o fewn y gymuned yn ystod y pum mlynedd diwethaf".<br>Mae'r is-bwyllgor wedi bod yn ceisio ers cryn amser i gael gweithiwr cymwys i lefelu'r fynwent ac i ymdrin a chyrbiau. Cytunwyd i wahanu'r ddwy dasg hon a bwrw ymlaen ar fyrder i ofyn i Sion Jones wneud y gwaith ychwanegol o geisio llenwi lle nad yw'r tir yn gwbl wastad; mae cyflenwad o bridd eisoes yn barod ar gyfer y gwaith hwn.<br>Cytunwyd i ofyn i'r Parchedig Carwyn Siddall atgoffa cynulleidfa angladd i fod yn ofalus os yn camu oddi ar y llwybrau.<br>Cytunwyd i gyhoeddi'r ffioedd ar y wefan. O'u cymharu a ffioedd Cyngor Gwynedd, mae ffioedd y Fynwent Newydd yn rhesymol iawn.<br>Derbyniwyd yr argymhellion a diolchwyd i'r Is-bwyllgor.<br><br>**<u>Bioamrywiaeth</u>**<u>:</u> Cafwyd adroddiad gan Rhodri Prys Jones y bu iddo gyfarfod gyda Elin Smith, Pennaeth Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri, i drafod y goedlan ochr bellaf i'r Fynwent Newydd. Roedd cynnig i glirio'r helyglys a'r mieri yn y goedlan eleni. Flwyddyn nesaf bydd cyllid i wneud prosiect sylweddol, gan gynnwys plant yr ysgol, a chreu ardal blodau gwyllt efo mainc, clirio'r coed a chreu llwybrau. Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno i dorri'r ddwy goeden wrth y fynedfa er mwyn diogelwch y cyhoedd. Cytunwyd i'r cynllun hwn.<br><br>**Ariannol:** Cyflog y Clerc<br>CThEF 150.00<br>Trwsio yn y toiledau 434.00<br>CCF – toiledau 84.35 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Torri gwair y Fynwent 490.00<br>Bagiau cadw coed Nadolig (NHJ) 41.97<br>Cynnal a chadw toiledau 167.00<br>UGC – Patagonia 450.00 Disgwylir ad-daliad<br>CCF – toiledau 65.30<br>HG Web Designs 250.00<br>Papur ffotocopio Viking (BE) 22.86<br><br>Cytunodd y Cyngor I wneud cais i Parc Cenedlaethol Eryri am gyngor “cyn gwneud cais” parthed creu mynedfa newydd i’r Eagles.<br><br>Cytunwyd i gais NP5/71/476C - ychwanegu tŷ haul i dalcen Lloches Don.<br><br>Cyfeiriwyd materion y Cynghorydd Alan Jones Evans :<br>Gordyfiant coed a changhennau ar ochr ffordd rhwng Llys Bach a Dwrnudon<br>Ffordd Bryncaled ac ardal Bont Newydd – biniau yn gorlenwi<br>Cytunwyd i ofyn iBwyllgor y Neuadd drefnu hyfforddiant ar y dechnoleg newydd i fudiadau.<br><br>Tynnwyd sylw at or-yrru yn ardal Pont y Pandy ac ar hyd y pentref. |